Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

10 Medi 2020

Annwyl Riant / Ofalwr,

Hoffwn eich hysbysu o ambell beth, a ninnau fel Ysgol ar fin croesawu Blwyddyn 8 i'r safle yfory i ymuno a phob blwyddyn arall. Hoffwn ddiolch o galon i chi fel rhieni am bob cydweithrediad dros yr wythnos gyntaf. Bu'r canrannau presenoldeb hyd yn hyn yn y 90au uchel, ac edrychwn ymlaen at barhau i gynnig yr addysg orau i'ch plant dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Dim Darpariaeth Cinio

Mae'r ysgol wedi bod yn brysur mewn trafodaethau gydag adran Arlwyo'r Sir yn trafod mabwysiadu system Portal neu Ap ar gyfer archebu bwyd yn yr ysgol er mwyn osgoi'r defnydd o arian parod. Fel y gwyddoch, mae gan yr ysgol ofidiau hefyd ynglŷn â maint y ffreutur a'r gallu i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr o dan yr amodau presennol, o ystyried sefyllfa Covid. Bydd yr Portal neu Ap hwn yn galluogi disgyblion i archebu bwyd o hirbell a bydd modd i'r ysgol drefnu cludo'r bwyd i'r disgyblion yn eu parthau gwahanol heb rwystr.

Ni fydd y gyfundrefn newydd hon mewn lle erbyn dydd Llun nesaf. O'r herwydd bydd oedi pellach cyn i ni fedru darparu gwasanaeth llawn o ginio ar dir yr ysgol i ddisgyblion. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn pryd ysgol am ddim yn derbyn cinio ar y safle o ddydd Llun nesaf ond neb arall am y tro.

Gobeithir y bydd y ffreutur yn gallu paratoi cinio i bawb yn fuan, ond bydd angen i'ch plant ddod â bwyd a diod eu hunain i'r Ysgol am y pythefnos nesaf o leiaf.

Gadael yr Ysgol Ddiwedd Dydd

Bellach, mae disgyblion yr Ysgol yn gadael y safle ar yr amserau canlynol i fynd lan i'r bysys ar ddiwedd dydd:

2:50pm Blwyddyn 7
2:55pm Blwyddyn 8
3:00pm Blwyddyn 9
3:05pm Blwyddyn 10
3:10pm Blwyddyn 11-13

Rydym wedi addasu hyn rywfaint dros yr wythnos ddiwethaf wrth i ni asesu'r risg ar ddiwedd dydd. Gwnaed hyn i gyfyngu ar y nifer sy'n teithio lan i'r arhosfan bysys ar unrhyw un adeg.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Mygydau ar y bysys
A wnewch chi sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo mwgwd ar y bws yn y bore ac ar y ffordd gartref? Mae angen i ni, gyda'n gilydd, sicrhau bod hyn yn digwydd yn ddieithriad.

Symptomau Covid-19

1. Hoffwn eich atgoffa cymuned yr Ysgol y dylai unrhyw blentyn sy'n arddangos symptomau o Covid-19 (tymheredd uchel / peswch newydd / newid mewn synnwyr arogli neu flasu) aros gartref, a dylech chi fel rhieni gysylltu â'r Bwrdd Iechyd lleol i drefnu prawf ar gyfer y firws. Ni fydd modd i'ch plentyn ddychwelyd i'r Ysgol heb i ni dderbyn tystiolaeth electronig o brawf negatif.
2. Os bydd aelod o'r teulu yn profi'n bositif am y firws, bydd yn rhaid i'ch plant ynysu am 14 diwrnod cyn gallu dod 'nôl i'r Ysgol.
3. Os byddwch yn dewis teithio dramor i wledydd ac ardaloedd penodol, bydd yn rhaid i chi ynysu gartref am 14 diwrnod cyn i chi neu eich plant allu gadael y tŷ.

Gwyliau Dramor
Ni ddylech fynd â'ch plentyn ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. Does dim modd i'r Ysgol roi caniatâd i chi wneud hynny yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru. Yng ngoleuni sefyllfa llawer o wledydd o ran Covid-19, byddwn yn eich cynghori i beidio â theithio dramor yn ystod y misoedd nesaf, oherwydd y cyfnod o hunan-ynysu bydd yn rhaid digwydd o ganlyniad i hynny, a'r posibilrwydd y bydd eich plentyn yn colli mwy o addysg eto.

Byddaf yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi dros yr wythnosau nesaf.

Yn gywir

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

10 September 2020

Dear Parent / Carer,

I would like to share a few matters with you, as the School is about to welcome Year 8 to the site tomorrow to join every other year. We would like to thank you as parents for all your co-operation during the past week . Attendance thus far has been in the high 90s, and we look forward to continuing to offer your children the very best education over the coming weeks and months.

No Provision for Lunch

The school has been in discussions with the Authority's Catering department to discuss adopting a Portal or App system for ordering food at school to avoid the use of cash. As you know, the school also has concerns about the size of the canteen and the ability to provide a comprehensive service subject to the restrictions of Covid's. This Portal or App will enable pupils to order food remotely and the School will be able to arrange to deliver the food to the pupils in their different zones.

This new regime will not be in place by next Monday. As a result there will be further delays before we are able to provide a full service of school meals for pupils. But the school will ensure that every child who is in receipt a free school meal receives lunch on site from next Monday; we will not be providing food on site for no one else for the time being.

It is hoped that the canteen will be able to prepare lunch for everyone soon, but your children will need to bring their own food and drink to the School for at least the next two weeks.

Leaving at the end of the school day

School pupils now leave the site at the following times to go up to the buses at the end of the day:

2:50pm	Year 7
2:55pm	Year 8
3:00pm	Year 9
3:05pm	Year 10
3:10pm	Year 11-13

We have adjusted this somewhat over the last week as we assess the risk at the end of the day. This has been done to limit the number of people walking up to the bus stop at any one time.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
QS
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standard
SportsMarc
Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Masks on the School buses

Could you ensure that your child wears a mask on the bus in the morning and on the way home? As a School and as parents, we need to make sure that this happens without exception.

Covid-19 Symptoms

1. I would like to remind the School community that any child exhibiting symptoms of Covid-19 (high temperature / new cough / change in sense of smell or taste) should stay at home, and you as parents should contact the local Health Board to arrange a test for the virus.
Your child will not be able to return to School without our receiving evidence of a negative test, by email if needs be.
2. If a family member tests positive for the virus, your children will have to isolate for 14 days before being able to return to School.
3. If you choose to travel abroad to certain countries and areas, you will need to isolate at home for 14 days before you or your children can leave the house.

Holidays Abroad

You should not take your child on holiday during term time. The School can't give you permission to do so according to Welsh Government guidelines. In light of the position of many countries with regard to Covid-19, I would advise you not to travel abroad in the coming months, because of the period of self-isolation that will result, and the possibility that your child misses yet more education.

I will continue to keep in touch with you over the coming weeks.

Yours faithfully

Head

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg